

Caban Y Faenol CYF

Polisi defnydd Ffonau Symudol ar gyfer Staff

Amcan

Darparu canllawiau i staff, er lles eu hiechyd a diogelwch personol, a hefyd i reoli camddefnydd o offer yn ystod oriau gwaith.

Canllawiau –

- Ni ddylid defnyddio ffonau symudol personol yn ystod oriau gwaith, oni bai bod argyfwng.
- Gellir defnyddio rhif ffôn llinell dir a rhif ffôn symudol Caban y Faenol fel rhif cyswllt brys.
- Dylid cadw ffonau symudol personol mewn bagiau yn y storfa.
- Pan fydd yn rhaid defnyddio ffôn symudol i wneud galwad frys personol, dylid cadw'r alwad yn fyr.
- Caniateir defnyddio ffôn symudol personol yn ystod amser egwyl ond ni ddylid ei ddefnyddio o fewn golwg y plant, yn y storfa os yn bosibl.

Yr Agwedd Gyfreithiol

O dan Adran 1 o Ddeddf Cyfathrebu Maleisus 1998, mae'n anghyfreithlon anfon neges amheus, anwedus neu fgythyliol at unrhyw unigolyn, yn ysgrifenedig neu'n electronig. Mae hefyd yn anghyfreithlon i anfon neges trwy alwad ffôn. Y sancsiwn ar gyfer gweithredu o'r fath yw uchafswm o 6 mis o garchar, a/neu ddirwy o hyd at £5000. Ymhellach, o neges yn bygwth trais yn erbyn y dioddefwr, gellir gosod cosb o hyd at 5 mlynedd o garchar. Os yw'n neges hiliol, gall y gosb fod hyd at 7 mlynedd o garchar.

Bydd y lleoliad yn rheoli'r defnydd o ddyfeisiau symudol trwy gadw at y mesurau a amlinellir yn y canllawiau Dyfeisiau Symudol.

Bydd y lleoliad yn sicrhau:

- bod ardaloedd lle na chaniateir dyfeisiau symudol, e.e. manau cysgu/ymlacio ac ystafelloedd newid/ystafelloedd ymolchi, a bod digon o arwyddion yn cael eu harddangos.
- nad yw dyfeisiau symudol yn ymyrryd nac yn tarfu ar weithgareddau yn ddiangen neu'n anniogel.
- bod pob defnyddiwr gwasanaeth yn cytuno i ddefnydd derbyniol a rheolaeth o ddyfeisiadau symudol.
- bod disgwyliadau a chytundebau clir yn eu lle o ran pryd a ble y gellir defnyddio dyfeisiau symudol.

Caban Y Faenol CYF

- bod oedolion, gan gynnwys yr holl rieni/gofalwyr, ymwelwyr a chontractwyr, yn cael eu hysbysu na ddylent ddefnyddio eu dyfeisiau symudol mewn mannau lle na chaniateir eu defnyddio.
- bod rhieni/gofalwyr sy'n tynnu lluniau/cofnodi o'u plant mewn digwyddiadau arbennig, yn cefnogi'r cylch i gadw plant yn ddiogel. Gofynnwn i bob rhiant/gofalwr barchu hawliau rhieni/gofalwyr eraill wrth dynnu lluniau neu fideo o'u plentyn mewn digwyddiad grŵp; ni ddylai rhieni/gofalwyr rannu delweddau/fideos o unrhyw un o'r plant eraill yn gyhoeddus ar gyfryngau cymdeithasol heb ganiatâd rhieni/gofalwyr eraill y plant sy'n ymddangos yn y llun(iau)/fideo(iau).

Dyfeisiau gwaith symudol

Bydd y gosodiad yn:

- labelu dyfeisiau symudol gwaith yn glir fel rhai sy'n perthyn i'r lleoliad.
- hyrwyddo'r defnydd o ddyfeisiau symudol gwaith penodol fel:
 - adnodd cyfathrebu effeithiol i anfon a derbyn e-byst, negeseuon testun a galwadau ffôn.
 - elfen hanfodol o'r pecyn argyfwng sy'n cael ei dynnu allan ar deithiau byr a theithiau eraill.
 - adnodd wrth gefn pe na bai ffôn yr adeilad yn gweithio, neu os oes angen cysylltu y tu allan i oriau gweithredu Caban y Faenol.
 - y ddyfais benodedig ar gyfer tynnu lluniau a/neu fideos o blant y tu allan i'r lleoliad
- rhoi gweithdrefnau effeithiol ar waith i warchod rhag camddefnydd posibl.
- sicrhau mai dim ond unigolion awdurdodedig sydd â mynediad i ddyfeisiau symudol sy'n perthyn i'r gweithle.
- diogelu'r ddyfais gyda chyfrinair a'i storio'n ddiogel pan nad yw'n cael ei defnyddio.
- gwahardd gwneud galwadau ffôn personol ar ddyfais symudol gwaith, oni bai bod amgylchiadau y cytunwyd arnynt, er enghraifft, mewn argyfwng. Byddwn yn cadw cofnod o bob cyfathrebiad o'r math hwn.
- sicrhau bod unrhyw ddefnydd personol a busnes yn cael ei gadw ar wahân os nad yw'n bosibl defnyddio dyfais symudol ar wahân at ddibenion gwaith.
- sicrhau bod unrhyw ymarferwyr sy'n gyrru ar ran y lleoliad yn diffodd unrhyw waith symudol a/neu ddyfeisiau personol wrth yrru. Wrth yrru ar ran y lleoliad, ni fydd ymarferwyr na'u rheolwyr yn gwneud nac yn derbyn galwadau ffôn, negeseuon testun nac yn defnyddio unrhyw opsiynau eraill sydd ar gael ar ffôn symudol. Mae hyn hefyd yn berthnasol i gysylltiadau di-wifr a di-law, a allai dynnu sylw'r gyrrwr.

Caban Y Faenol CYF

Dyfeisiau symudol personol

Nid yw'r lleoliad yn argymhell bod ymarferwyr yn defnyddio unrhyw ddyfeisiau symudol digidol personol yn y lleoliad, ond rydym yn cydnabod y bydd adegau pan fydd yn rhaid iddynt ddefnyddio dyfais symudol personol (e.e. ffôn symudol) ar deithiau oddi ar y safle, neu pan fydd angen cyswllt brys. Disgwylir i ymarferwyr gadw eu defnydd o fewn ffiniau derbyniol a gofyn am ganiatâd ymlaen llaw gan yr Arweinydd / Person Cofrestredig / Unigolyn Cyfrifol / Cadeirydd.

Bydd y gosodiad yn:

- cyfyngu'r defnydd o ddyfeisiau symudol personol i amseroedd a lleoedd penodol, e.e. ardal ymarferwyr yn unig, oni bai bod trefniadau eraill wedi eu gwneud ymlaen llaw o dan amgylchiadau eithriadol. Byddwn yn hysbysu'r holl oedolion sy'n dod i mewn i'r ddarpariaeth o hyn ac yn sicrhau eu cydweithrediad.
- sicrhau bod pob defnyddiwr gwasanaeth yn cytuno i ddefnydd derbyniol a rheolaeth o ddyfeisiadau symudol.
- sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn deall eu bod yn gyfrifol am ddyfeisiau symudol personol sy'n cael eu gadael yn y man storio. Os yw ymarferydd yn storio dyfais symudol personol, argymhellir ei fod yn cael ei ddiogelu gan god diogelwch yn ogystal â chyfrinair, a'i fod wedi'i yswirio. Ni all y lleoliad dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a/neu ddifrod.
- cadw'r hawl i archwilio'r defnydd a wneir o bob dyfais symudol, ac mae gan y person sy'n gyfrifol am ddiogelu plant yr hawl i dynnu'n ôl neu gyfyngu ar awdurdodiad i'w defnyddio ar unrhyw adeg, os oes angen.
- sicrhau nad yw ymarferwyr yn defnyddio eu dyfeisiau symudol personol i gysylltu â phlant a/neu eu rhieni/gofalwyr oni bai eu bod mewn argyfwng.
- hysbysu pawb sy'n dod â dyfeisiau symudol personol i'r lleoliad y disgwylir iddynt sicrhau nad oes unrhyw beth anghyfreithlon neu amhriodol ar eu dyfeisiau.